




Parc Gwyddoniaeth Menai (M-SParc)

Y CAM DYLUNIO



Fel rhan o raglen Exemplar CEW, mae Parc Gwyddoniaeth Menai wedi cael ei ddewis yn brosiect Esiampl. Mae'n brosiect gwerth £20m sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a chronfa ERDF yr Undeb Ewropeaidd. Y nod yw sbarduno economi Gogledd Cymru drwy ddatblygu mentrau sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Mae Parc Gwyddoniaeth Menai Cyf (M-SParc) wrthi'n datblygu ei gynlluniau uchelgeisiol i adeiladu Parc Gwyddoniaeth pwrpasol cyntaf Cymru yng Ngaerwen, rhyw chwe milltir o Fangor. Bydd M-SParc, sef cwmni ym mherchnogaeth lwyf Prifysgol Bangor, yn cynnig labordai, swyddfeydd a manau gwaith glân yn ogystal â gweithfannau hyblyg.

Bydd M-SParc yn darparu lle i gwmnïau, busnesau a phrosiectau ymchwil sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth seiliedig ar wybodaeth, ynni, gwasanaethau amgylcheddol a mentrau technoleg lân (er na fydd o reidrwydd yn gyfyngedig i'r sectorau hyn). Bydd gwasanaethau ategol megis cymorth busnes, cyngor am eiddo deallusol a Chronfa Risg hefyd ar gael i fusnesau fydd wedi ymfefydlu ar y safle.

Penodwyd Willmott Dixon, y contractwyr Dylunio ac Adeiladu, o Fframwaith Caffael Gogledd Cymru, ac mae wedi bod yn gweithio gyda thîm y prosiect i ddatblygu'r dyluniadau manwl ar sail cysyniadau'r penseiri, Faulkner Browns. Dechreuodd y gwaith ar y safle yn ystod tymor yr hydref y llynedd, a'r nod yw ei gwblhau yn fuan yn 2018.

Mae'r prosiect arloesol hwn wedi defnyddio technegau Esiampl yn ystod y cam Dylunio i ymgysylltu â defnyddwyr ac ymgynghori â darparwyr ym maes rheoli cyfleusterau, i ddefnyddio technegau modelu gwybodaeth am adeiladau (BIM) i helpu i greu'r dyluniad ac i ystyried dulliau o leihau gwastraff.

MANYLION Y PROSIECT

Cleient: Pryderi Ap Rhisiart, Prifysgol Bangor

Rheolwr y Prosiect: Ian Lamb, Gleeds UK

Contractwr: David Williams, Willmott Dixon

Dylunydd: Leighton Cooksey, Faulkner Browns

Strwythurau: Caulmert: M&E Design: TACE

Gwerth: Gwaith Galluogi, Caffael y Safle a Chyfleustodau: £2m; Ffioedd a Chyfreithiol: £1.5m; Contract Dylunio ac Adeiladu: £15m

Maint y prosiect: 5,950m²

Contract: JCT Dylunio ac Adeiladu

Hyd: 64 wythnos - Cam Dylunio Mehefin15 - Medi16; Dylunio ac Adeiladu Hydref16 - Ionawr18;

PWYNT CYSWLLT

Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW)- Gordon Brown
gordon.brown@cewales.org.uk

Parc Gwyddoniaeth Menai
Cyf (M-SParc) - Pryderi Ap Rhisiart
p.a.rhisiart@bangor.ac.uk





Beth yw prosiect Esiampl?

Diffinnir prosiect Esiampl (Exemplar) fel prosiect **'sy'n haeddu cael ei efelychu'**. Mae'r rhaglen wedi cael ei llunio i helpu i nodi'r rhesymau pam mae rhai prosiectau'n llwyddiannus mewn ffordd safonol a mesuradwy, ac i roi gwybod i'r diwydiant beth sydd wedi gwneud y llwyddiannau hyn yn bosib.

Mae prosiect Esiampl yn ystyried pob agwedd ar gynaliadwyedd, gan gynnwys elfennau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan ddangos bod y cynllun

wedi cael ei ddatblygu'n gyflawn ac wedi cynnwys arferion gorau a chydweithio.

Caiff astudiaethau achos eu paratoi ar 3 Cam Allweddol – y Cam Dylunio, y Cam Adeiladu a'r Cam Ôl-feddiannaeth

Mae hyn yn sicrhau bod modd dangos y gwersi a ddysgir drwy bob cam o ddatblygiad y prosiect.

Beth sy'n gwneud y prosiect hwn yn Brosiect Esiampl

Mae rhagoriaeth ym maes adeiladu wedi bod yn gonglfaen allweddol ar gyfer y prosiect ers y cychwyn, gyda nifer o elfennau'n dangos arferion gorau ac arloesi. Dan arweiniad Cleient y Flwyddyn 2013 CEW, mae prosiect M-SParc wedi creu agwedd gweithio fel tîm wrth gyflwyno'r prosiect, gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol fel ei gilydd. Drwy sicrhau awyrgylch agored a chreadigol a diwylliant o drafod syniadau fel tîm cyflawn a chyfannol, mae'r cleient bellach yn gweld budd hynny yn y syniadau, y dyluniad a'r cynlluniau cyflawni sy'n cael eu cynhyrchu erbyn hyn.

Yn ystod digwyddiad y Cam Dylunio, bydd y tîm yn sôn am amrywiol elfennau'r cynllun Esiampl, gan gynnwys:

- 1 Defnyddio BIM y tu hwnt i'r elfennau adeiladu: O safbwynt defnyddio BIM, mae'r prosiect wedi rhagori, ac mae wedi datblygu sgiliau'r cleient, y sector adeiladu a'r gadwyn gyflenwi yn lleol i ymateb i hyn.
- 2 Mae'r cydweithio a'r ffordd mae'r tîm wedi gallu ymgynghori a gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r prosiect wedi rhagori ar ddisgwyliadau'r cleient. Ymgynghorwyd â'r rhai fydd yn defnyddio'r adnodd yn y pen draw a'r Cyhoedd, gan edrych ar sut yr oedd y Cynllun Busnes yn ganolog i'r cam dylunio.
- 3 Datblygu amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg – dyma un o brif ofynion y cleient sydd wedi cael ei adleisio a'i gefnogi gan y contractwr a'r tîm yn gyffredinol.
- 4 Holiaduron boddhad cwsmeriaid ac adolygiadau 360 llawn.
- 5 Mae'r prosiect yn torri tir newydd o ran budd i'r gymuned drwy ddatblygu dulliau a modelau newydd ar gyfer cyrraedd targedau. Mae'r cynllun budd i'r gymuned yn rhoi sylw i bawb, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau a phobl ifanc sydd ddim mewn addysg na hyfforddiant. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio'n galed i annog mwy o fenywod i ymuno â'r diwydiant adeiladu.
- 6 Mae'r prosiect wedi cofrestru ar gyfer cynllun Enabling Zero Waste CEW, ac mae'n hyrwyddo ailgylchu ar y safle a chyfleusterau lles. Mae cytundebau ailgylchu ar waith gyda chanolfannau ailgylchu lleol, ac mae'r mater yn cael ei drafod a'i hyrwyddo ym mhob cyfarfod cyn-cychwyn â'r gadwyn gyflenwi.
- 7 Mae defnyddio Clerc Gwaith yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol ac mae'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ystyried budd i'r gymuned, Ecoleg a Chynaliadwyedd.

Elfennau Nodedig

Dyma rai o'r prif bwyntiau eraill y dylid eu nodi o ran delio â'r prif faterion sy'n wynebu'r diwydiant:

- Mae paneli ffotofoltäig wedi'u hymgorffori yn y dirwedd yn yr adeilad ac o'i gwmpas er mwyn i ymchwilwyr o'r Brifysgol sy'n arbenigo mewn gwaith ffotofoltäig ar lefel uwch allu cael mynediad hwylus.
- Bu'r prosiect yn gweithio gyda Chontractwyr Dylunio ac Adeiladu fisoedd lawer cyn y broses dendro i gyfrannu at gamau cyntaf y broses ddylunio. Yn sgil y sgysiau hyn, cafodd tîm y prosiect negeseuon allweddol a chyfeiriad ar adeiladwyedd o'r dechrau, a chawsant eu hymgorffori yn y gwaith dylunio a'r cynlluniau costau cynnar.
- Roedd hyblygrwydd yr adeilad yn hanfodol, ac oherwydd hynny, mae'r tîm dylunio wedi datblygu dull hyblyg ac arloesol o ymdrin â darpariaeth y labordai a'r gwaith o'u datblygu.
- Bydd diffibrilwyr, a'r hyfforddiant a roddwyd ar y safle yn ystod y cam adeiladu, yn cael eu "trosglwyddo" i'r rheini fydd yn defnyddio'r safle yn y pen draw.
- Mae'r prosiect wedi cynnal 4 digwyddiad hyfforddiant BIM ar gyfer y Cleient a'r diwydiant adeiladu, ac mae wedi cyfrannu'n sylweddol at yr agenda "budd i'r gymuned".
- Defnyddiwyd drôn i ddarparu deunydd a gwybodaeth am gynnydd
- Roedd hyblygrwydd yr adeilad yn hanfodol, ac oherwydd hynny, mae'r tîm dylunio wedi datblygu dull hyblyg ac arloesol o ymdrin â darpariaeth y labordai a'r gwaith o'u datblygu.
- Mae WDC ac M-SParc wedi comisiynu artistiaid lleol i ailgylchu deunyddiau gwastraff ar gyfer arddangosfa yn yr Eisteddfod fis Gorffennaf.
- Mae paneli ffotofoltäig wedi'u hymgorffori yn y dirwedd yn yr adeilad ac o'i gwmpas er mwyn i ymchwilwyr o'r Brifysgol sy'n arbenigo mewn gwaith ffotofoltäig ar lefel uwch allu cael mynediad hwylus.
- Diolch i gynllun Ymddiriedolaeth y Tywysog, bu unigolion ar brofiad gwaith yn defnyddio pren wedi'i ailgylchu i wneud blychau plannu, a fydd yn cael eu rhoi i'r ysgol leol.
- Defnyddiwyd elfennau rhithwirionedd o wybodaeth am y dyluniad a BIM i ddarparu cynlluniau gweithredu syml a Methodoleg ar y safle. Roedd hyn hefyd yn fuddiol i hyrwyddo'r cynnyrch terfynol i denantiaid posib.

Gwella'r Broses

Mae Tîm M-SParc wedi bod yn awyddus i sicrhau bod gwaith "tîm" yn ganolog i'r prosiect o'r dechrau gyda'r tîm dylunio gwreiddiol o FaulknerBrowns. Mae'r agwedd "tîm" ar gyfer y prosiect wedi cael ei ddatblygu ymhellach gyda'r contractwr Dylunio ac Adeiladu. Bydd naws gydweithredol ac agored ar y safle ei hun wrth i'r Cleient, y contractwr a'r timau proffesiynol eistedd ochr yn ochr â'i gilydd.

Mae awyrgylch agored a diogel wedi cael ei ffurfio ar gyfer tîm y prosiect, a gwelwyd hynny yn y gweithdai Cychwyn Arni, Lansio'r Prosiect a Chanolraddol a gynhaliwyd hyd yma.

Cafwyd gweithdai lle nodwyd dulliau cydweithio a nodau cyffredin, a chyfle i holi'r arweinwyr, er mwyn sicrhau bod tîm y prosiect yn gwybod yn iawn beth yw'r disgwyliadau a sut mae cyflwyno'r prosiect yn llwyddiannus. Pan fydd angen canolbwyntio ar y cwsmer, bydd elfennau fel sicrhau ansawdd a bodloni disgwyliadau'r cwsmer yn cael eu rheoli ar y cyd gyda phwrpas cyffredin.

Yn ogystal, mae'r tîm cyflawni wedi llunio datganiad prosiect i gyfleu'r ethos: **"Fel tîm, byddwn yn creu adeilad o'r radd flaenaf y bydd pob un ohonom yn falch ohono. Bydd M-SParc yn esiampl i bawb yn y diwydiant adeiladu. Bydd y prosiect yn sicrhau effaith economaidd barhaol yn yr ardal - heddiw drwy'r budd i'r gymuned, ac yfory drwy gynnig cyfleoedd gwaith o ansawdd uchel a chyfleoedd entrepreneuriaidd.**

Byddwn yn gwneud hyn drwy gyfathrebu'n agored gyda'n gilydd, gyda'r cyhoedd a gyda'n rhanddeiliaid, a drwy weithio fel tîm. Byddwn yn rhagori ar ddisgwyliadau ac yn gwneud ein gorau i sicrhau mai ni yw'r gorau."

Defnyddio'r Clerc Gwaith ar Contract Dylunio ac Adeiladu

Penderfynodd Parc Gwyddoniaeth Menai gyflogi Clerc Gwaith ar y Prosiect Dylunio ac Adeiladu; rhywbeth anghyffredin i'w wneud ar gyfer contract fel hwn, ac mae'r rôl ei hun yn anarferol hefyd. Yn hytrach na Chlerc Gwaith gwrthrychol a thraddodiadol, roedd M-SParc yn awyddus i gael rhywun a fyddai'n gweithio gyda'r contractwyr ac yn cydweithredu'n gadarnhaol gyda nhw.

Mae'r berthynas rhwng y Clerc Gwaith a Willmott Dixon yn berthynas iach iawn. Bydd unrhyw broblemau'n cael eu nodi ac yn cael eu trafod ar unwaith er mwyn cael atebion. Roedd M-SParc yn awyddus i'r contractwyr edrych ar y Clerc Gwaith fel adnodd a oedd ar gael iddynt - pâr arall o lygaid i wneud yn siŵr bod y gwaith adeiladu yn iawn y tro cyntaf, a bod yr ansawdd yn rhagorol.

Y bwriad felly wrth benodi Clerc Gwaith oedd lleihau risgiau o ran ansawdd, a rhoi tawelwch meddwl i'r Cleient bod yr ansawdd yn ardderchog. Bydd Willmott Dixon yn awr yn gwahodd y Cleient a'r Clerc Gwaith i ddefnyddio technoleg symudol i nodi a rheoli mân broblemau ar y safle drwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.

Dywedodd Andrew Bailey, y Clerc Gwaith: **"mae ansawdd y gwaith ar y safle yn wych ac mae gen i berthynas iach a chydweithredol â'r cwmni."** Ychwanegodd David Williams, Rheolwr Prosiect Willmott Dixon: **"mae cael Andy ar y safle wedi ein helpu ni i roi tawelwch meddwl i'r cleient bod ansawdd ein gwaith yn ardderchog, ac rydyn ni fel tîm wir yn gwerthfawrogi ei agwedd gydweithredol at y prosiect."**

Ymgysylltu â'r Gymuned, Gwella'r Gymuned a Budd i'r Gymuned

Bydd y budd fydd yn deillio o'r parc - a'r effaith y bydd yn ei chael - yn bellgyrhaeddol, fel y nodir yn Natganiad Partneriaeth y Prosiect. Bydd yn sbarduno'r ardal heddiw drwy'r budd a gynigir i'r gymuned, ac yfory drwy'r cyfleoedd gwaith ac entrepreneuriaid o safon uchel a gynigir."

Mae'r Budd i'r Gymuned yn sylweddol ac yn bellgyrhaeddol, ac mae'r Cleient wedi gweithio gyda WD i lunio a chytuno ar gynllun Budd i'r Gymuned a fydd yn fawr ei effaith. Mae'r cynllun yn cael ei fonitro yn y cyfarfodydd cynnydd ffurfiol, a bydd yn sicr yn arwain at fudd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i'r ardal.

Un o'r prif feini prawf ar gyfer y prosiect o'r dechrau un oedd bod yn gynaliadwy o safbwynt economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r her hon wedi cael ei rhannu â phawb sy'n rhan o'r gwaith o gyflwyno'r prosiect er mwyn sicrhau bod dylunwyr a'r timau adeiladu ar y safle yn ymwybodol o'r her ac yn teimlo'u bod yn gallu helpu M-SParc i wireddu'r weledigaeth. Bydd sicrhau'r dyfodol cynaliadwy hwn yn gwneud yn siŵr bod y datblygiad yn cael effaith hirdymor a pharhaol o'r dechrau. Mae'r gwerthoedd hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac wrth wraidd ein prosiect.



Cynaliadwyedd

Mae M-SParc yn cael ei asesu o dan gynllun BREEAM NC2014. Mae sgôr ardderchog wedi'i thargedu, gyda sgôr cyn-asesu y cam dylunio yn 72.5% ar ddiwedd Cam 3. Roedd gofynion BREEAM wedi'u gwreiddio yng ngofynion rhagarweiniol y contract.

Yn ystod Cam 2, cynhaliodd y tîm dylunio weithdy cynaliadwyedd "awyr las" er mwyn trafod a rhannu syniadau am fesurau cynaliadwyedd posib. Ar ôl i'r rhestr hir o fesurau cynaliadwyedd gael ei llunio, ystyriwyd pob mesur ar wahân ar sail teilyngdod er mwyn datblygu'r strategaeth fwyaf effeithlon ac effeithlon.

Mae'r Strategaeth Cynaliadwyedd wedi'i seilio ar flaenoriaethu methodoleg ddarvoudus "Lean" (lleihau'r galw am ynni a dŵr). Yna defnyddiwyd methodoleg "Mean" i sicrhau bod y systemau adeiladu penodol mor effeithlon ag y bo modd, a methodoleg "Gwyrdd" wedyn (defnyddio LZC a ffynonellau dŵr amgen), fel y flaenoriaeth isaf.

Mae egwyddorion Passivhaus wedi'u defnyddio gydag amgaead thermol effeithlon iawn, gan wneud y defnydd gorau posib o awyru a golau naturiol. Un o dargedau'r strategaeth cynaliadwyedd oedd cael y credydau Ene01 gofynnol ar gyfer BREEAM 2014 Rhagorol, a chyflawnwyd hyn drwy ategu'r amgaead thermol â 250m² o PV, wedi'i integreiddio i'r dirwedd fel datganiad gwledol o ethos M-SParc.

Mae'r strategaeth allanol wedi cael ei datblygu gyda'r nod o gynnal bioamrywiaeth y tir fferm a'i gwella, gan greu cynifer o gyfleoedd â phosib i sicrhau budd i'r gymuned ac ar gyfer addysg.

Strategaeth Y Gadwyn Gyflenwi

Roedd defnyddio Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru i gaffael y gwaith yn ffordd ryngweithiol o gydweithio er mwyn rhannu diben cyffredin, sef cyflwyno prosiectau sector cyhoeddus yn llwyddiannus ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

Dyma'r prif elfennau sy'n cael eu hybu drwy'r Fframwaith: Ymwneud yn egwyddorol â Chleientiaid a Chontractwyr, ynghyd â sefydliadau addysg, a chefnogi asiantaethau drwy grwpiau strategol BIM a Budd i'r Gymuned, yn ogystal â chyd gymhelliant, ymddiriedaeth yn y naill a'r llall, dealltwriaeth a chyd-ymrwymiad.

Mae hyn wedi rhoi'r gallu i ni fynd ati gyda'n gilydd i rannu gwybodaeth ac adnoddau, a sicrhau newid parhaol yn ein deinameg cydweithredu.

Bydd egwyddorion a gwerthoedd y prosiect yn cael eu sefydlu yn y gadwyn gyflenwi o'r dechrau. Bydd hyn yn cynnwys y dylunwyr, y cyflenwyr, y gweithgynhyrchwyr a'r gosodwyr fydd yn rhan o'r prosiect. Yn ystod y broses ymgynghori a thendro, bydd yr holl wybodaeth berthnasol am y prosiect yn cael ei rhannu â'r cyflenwr, gan gynnwys crynodeb o brif werthoedd ac egwyddorion y prosiect. Er enghraifft BREEAM, BIM a'r Cynllun Cymunedol. Bydd agenda bwrpasol ar gyfer cyfarfodydd cyn-cychwyn gyda chyflenwyr yn sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir yn gyson.

Mae iechyd a diogelwch yn hollbwysig i dîm y prosiect, ac o'r dechrau un, bydd cyflenwyr yn cael eu briffio ac yn cael gwybodaeth am bwysigrwydd sicrhau iechyd a diogelwch. Gwneir hyn drwy sesiynau cyflwyno ar Iechyd a Diogelwch, asesiadau iechyd a diogelwch amserol, cymeradwyo datganiadau dull, sesiynau cyn-cychwyn oddi ar y safle, sgysiau ar faterion ymarferol, ac adnabod anghenion hyfforddi o ran iechyd a Diogelwch a rheoli hyn ar y safle.

Bydd dynodi a rheoli arferion gorau yn hollbwysig i lwyddiant y prosiect, ac oherwydd hynny, ymgynghorir â chyflenwyr, a drwy gydweithio â nhw bydd modd meddwl am ffyrdd newydd o weithio ar gyfer y cynllun a'u rhoi ar waith. Dyma rai enghreifftiau o'r arferion gorau a welwyd eisoes:

- Archwiliadau Ansawdd y cytunwyd arnynt ymlaen llaw, a nodi deunyddiau i'w harchwilio oddi ar y safle
- Polisi drws agored ar y safle (rhannu lle gyda'r cleient a'r gadwyn gyflenwi)
- "Sgysiau" diogelwch SSS dyddiol
- Cardiau CSCS i bawb
- Cynlluniau ansawdd ac iechyd a diogelwch ym maes adeiladu i bob cyflenwr
- Cynlluniau rheoli gwastraff/amgylcheddol i'r holl gyflenwyr
- Adolygiadau 360 y cyflenwr ar ôl cwblhau gwaith (gwersi a ddysgwyd)
- Rheoli diffygion ar y cyd - Fieldview ar ddyfeisiau Tabled
- BIM ar gyfer rheoli cyfleusterau



I geisio datblygu sgiliau'r gadwyn gyflenwi leol, mae hyfforddiant BIM eisoes wedi'i drefnu ar gyfer crefftwyr lleol er mwyn iddynt ddysgu am BIM, gyda digwyddiad dilynol ar y gweill ar gyfer mis Mawrth/Ebrill 2017. Roedd y lefelau presenoldeb yn uchel. (Llun ar y dde - Hyfforddiant BIM).



Adnoddau

Mae M-SParc hefyd yn aelodau balch o Raglen EZW CEW, ac mae wedi bod yn edrych yn fanwl ar sut i leihau gwastraff ar y safle. Mae'r cleient wedi canolbwyntio'n arbennig ar ymgysylltu â'r gymuned, a bydd un prosiect yn dod ag artist a grwpiau budd cymunedol at ei gilydd i edrych ar ddatblygu gwaith celf o wastraff y safle. Yn ôl Pryderi Ap Rhisiart, Rheolwr Prosiect M-Sparc, **"Yn ystod y cyfnodau ymgynghori cynnar â'r gymuned, daeth yn amlwg bod dathlu hanes cyfoethog y safle yn bwysig i gymuned Gaerwen, ac mae'r rhaglen gelfyddydau a dim gwastraff yn rhoi cyfle i ni wneud hynny"** sYn ogystal â hyn, mae M-SParc yn edrych ar gynigion dodrefnu ar gyfer y parc, ac mae'n ystyried y budd o ddefnyddio dodrefn swyddfa wedi'u hailgylchu neu'u huwchgylchu yn y prosiect terfynol.

Mae safle M-SParc ar Ynys Môn yn agos at chwareli llechi Gogledd Cymru. Mae dros 5,225t o wastraff llechi o'r chwareli wedi cael ei ailgylchu a'i symud i'r safle i'w ddefnyddio fel deunydd llenwi ac fel sylfaen ar gyfer y ffyrdd cludo, ynghyd â chreigwely wedi'i wasgu o dop y safle. Bydd angen 1000t arall cyn y bydd y prosiect wedi'i gwblhau. Mae defnyddio deunydd gwastraff yn lleihau'r galw am ddeunydd newydd sbon, ac yn golygu nad oes angen echdynnu'r deunydd hwnnw.

Mae'n arfer cyffredin cael gwared ar wastraff swyddfa a gwastraff ffreutur drwy'r sgipiau gwastraff cyffredinol. Drwy wneud hyn, bydd deunyddiau eildro yn colli eu gwerth, a bydd yn anoddach gwahanu bwyd i'w waredu drwy'r broses dreulio. Mae gwastraff swyddfa a ffreutur safle M-SParc wedi cael ystyriaeth arbennig. Mae compownd gwastraff ar wahân ar gyfer gwastraff swyddfa a gwastraff ffreutur wedi cael ei sefydlu fel bod modd gwahanu gwastraff bwyd, gwydr a deunyddiau eildro cymysg. Bydd hyn yn ein galluogi i ailgylchu, i gynnal gwerth deunyddiau eildro ac i dreulio gwastraff bwyd yn anaerobig.

Mae gwastraff adeiladu yn cael ei wahanu hefyd. Ceir sgip ar gyfer metel, pren a gwastraff cymysg ar y safle. Bydd hyn yn lleihau costau rheoli gwastraff ac yn cynnal gwerth yr adnoddau.



Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW):

2il Lawr, Cwrt Longcross / 47 Heol Casnewydd / Caerdydd CF24 0AD
T: 029 20 493322 F: 029 20 493233
E: info@cewales.org.uk

